

Cynllun Corfforaethol 2013 - 2017



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau

CYNNWYS

1	RHAGAIR.....	3
2	CYFLWYNIAD	4
3	BLAENORIAETH UN – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I DDATBLYGU’R ECONOMI LEOL	16
4	BLAENORIAETH DAU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I GODI UCHELGEISIAU A CHYNYDDU CYFLAWNIAD ADDYSGOL	20
5	BLAENORIAETH TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I’R AFAEL Â PHROBLEMAU’N GYNNAR.....	25
6	BLAENORIAETH PEDWAR – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I HELPU POBL AGORED I NIWED I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL	29
7	BLAENORIAETH PUMP – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I FYND I’R AFAEL Â MATERION IECHYD AC ANNOG POBL I FABWYSIADU FFYRDD IACH O FYW	33
8	BLAENORIAETH CHWECH – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O’N HADNODDAU	37
9	ADRODD AR GYNNYDD.....	40
10	EICH SYLWADAU CHI A’R ADOLYGIAD BLYNYDDOL.....	40
	GEIRFA	41
	ATODIAD A: DANGOSYDDION LLWYDDIANT	44

1 RHAGAIR

Croeso i'n Cynllun Corfforaethol sy'n egluro ein gweledigaeth ar gyfer y fwrdeistref sirol ynghyd â set eglur o flaenoriaethau am y pedair blynedd nesaf. Mae cyfnod heriol o'n blaenau. Mae'r sefyllfa economaidd a diwygiadau gan Lywodraeth y DU yn golygu y bydd gennym lai i'w wario ac y bydd yn rhaid i ni ymdrin â galw cynyddol am wasanaethau a chanlyniadau diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Yn y cyfnod heriol hwn, bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer pobl y fwrdeistref sirol (o hyn ymlaen, 'y fwrdeistref') gyda ffocws arbennig ar ychydig o feysydd blaenoriaeth lle byddwn yn amcanu at gael y gwelliannau mwyaf.

Caiff ein blaenoriaethau eu hysbrydoli gan ein gweledigaeth i weithio gyda'n gilydd i wella bywydau yn y fwrdeistref. Dim ond os bydd y trydydd sector, teuluoedd, cymunedau ac os byddwch chithau, ein dinasyddion, yn ein cefnogi ac yn gweithio gyda ni y gallwn gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol. Ar ôl ymgynghori manwl â'r cyhoedd a dadansoddiadau helaeth o ddata ystadegol, rydym wedi dod i'r casgliad bod angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar yr economi leol ac iechyd ac addysg ein dinasyddion, yn ogystal ag ar wneud y fwrdeistref yn lle gwych i fyw, dysgu, gweithio a chwarae ynddo.

Byddwn yn datblygu canolau ein trefi, ein safleoedd busnes a rhwydweithiau cludiant a chyfathrebu i hybu economi gryfach a mwy llewyrchus. Byddwn yn datblygu cyfleoedd addysgol, fel bod ein plant a'n pobl ifanc yn gallu cyflawni canlyniadau y gallant fod yn falch ohonynt a gwireddu eu dyheadau uchaf. Byddwn yn ymgnïo i helpu plant a'u teuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl agored i niwed a phobl hŷn i ddod, neu barhau i fod, yn annibynnol a byddwn yn cymryd yr holl fesurau y gallwn i ymdrin â materion iechyd.

Mae'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u pennu'n heriol yn enwedig yng nghyd-destun economi wan a chyfyngiadau ar wariant cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o wella bywydau yn y fwrdeistref ac rydym yn hyderus, trwy gydweithio gyda phobl leol, busnesau lleol a'r trydydd sector yn lleol, y gallwn gyrraedd ein nodau a chyflawni'r ymrwymadau yr ydym wedi'u gwneud yn y Cynllun Corfforaethol hwn.



Y Cynghorydd Mel Nott
Arweinydd y Cyngor



Darren Mepham
Prif Weithredwr

2 CYFLWYNIAD

Er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd ac ariannol heriol, dros y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi cyflawni gwelliannau pendant yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu fel a ddangoswyd yn ein Hadroddiad Blynyddol yn 2011-12, sydd ar gael yn www.bridgend.gov.uk. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gydag eraill dros y pedair blynedd nesaf i wella bywydau yn y fwrdeistref. Mae'n cyflwyno chwe phrif flaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella a'r camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd i'w hategu. Rydym yn disgwyl i'r amgylchedd ariannol ddod yn fwyfwy anodd yn y blynyddoedd nesaf ac mae felly'n bwysig iawn ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni trwy ganolbwyntio ar set eglur iawn o flaenoriaethau a gwasanaethau statudol. Caiff y cynllun hwn ei ategu felly gan Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sydd ar gael yn www.bridgend.gov.uk

Y deilliannau allweddol yr ydym yn dymuno'u cyflawni

Erbyn 2017 rydym yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- **Mae pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn iachach.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl a'u teuluoedd yn cael eu grymuso ac yn cael gwybodaeth i fyw bywydau iach ac annibynnol a bod ein cymunedau'n gryfach, yn gydlynol ac yn gynaliadwy, gyda mynediad priodol at wasanaethau ar gyfer pawb.
- **Mae pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael budd o economi gryfach a mwy ffyniannus.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn fwyfwy gweithgar yn yr economi leol ac yn cefnogi busnesau lleol a bod ein cymunedau'n gynaliadwy gyda'r isadeiledd priodol i ategu twf busnes a chanolau trefi ffyniannus.
- **Mae pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cynnwys a'u grymuso i gyrraedd eu llawn botensial.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn ddinasyddion gweithgar yn y gymdeithas, wedi'u harfogi â'r sgiliau, y cymwysterau a'r hyder y mae eu hangen i fyw a gweithio a bod cyfle cyfartal fel bod pobl yn cael cymorth ac yn cael eu gwerthfawrogi'r un faint â'i gilydd.
- **Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn ymfalchïo yn y sir, eu cymunedau, y dreftadaeth a'r amgylchedd naturiol a bod ein cymunedau'n lân ac yn ddiogel ac yn cynnig ystod dda o weithgareddau hamdden, twristiaeth a diwylliannol.

Ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2013-17

Rydym wedi adnabod y pum blaenoriaeth ganlynol ar gyfer gwella dros y pedair blynedd nesaf, gwelliannau yr ydym ni'n credu sydd fwyaf o bwys i bobl yn y fwrdeistref.

Gweithio gyda'n
gilydd i ddatblygu'r
economi leol

Gweithio gyda'n
gilydd i godi
uchelgeisiau a
chynyddu cyflawniad
addysgol

Gweithio gyda phlant
a theuluoedd i fynd i'r
afael â phroblemau'n
gynnar

Gweithio gyda'n
gilydd i helpu pobl
agored i niwed i
barhau i fod yn
annibynnol

Gweithio gyda'n
gilydd i fynd i'r
afael â materion
iechyd ac annog
pobl i fabwysiadu
ffyrdd iach o fyw

I helpu i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig hyn a lleihau'r effaith y bydd llai o gyllid yn ei chael ar wasanaethau rydym wedi adnabod chweched blaenoriaeth ar gyfer gwella, sef:

Gweithio gyda'n
gilydd i wneud y
defnydd gorau o'n
hadnoddau

Y chwe blaenoriaeth hon yw ein hamcanion gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae prif ran y Cynllun Corfforaethol hwn yn egluro pam fod pob un o'r blaenoriaethau hyn yn bwysig, yr hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni, a sut y bydd llwyddiant yn edrych.

Ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn

Mae'r heriau canlynol wedi dylanwadu ar ein dewis o flaenoriaethau a'r ffordd y byddwn yn gweithio i'w cyflawni. Ceir mwy o fanylion ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau ym mhrif ran y cynllun hwn.

Y duedd economaidd

Ar gyfer nifer o'r ystadegau allweddol, mae'r economi yn y fwrdeistref yn perfformio mewn ffordd debyg i Gymru gyfan ac mae'n agos at, neu ychydig yn uwch, na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o ran cyflogaeth ac incwm. Er gwaethaf y sefyllfa economaidd genedlaethol, mae nifer y bobl mewn gwaith yn y fwrdeistref wedi codi bron i 3000 ers 2009. Serch hynny, rydym yn dal i bryderu bod 1 ym mhob 4 plentyn yn y fwrdeistref yn byw mewn aelwydydd 'incwm isel' a bod nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yn y fwrdeistref yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r gyfran o'r boblogaeth sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith am yn hwy na 6 mis yn gostwng ond mae'n dal yn llawer uwch nag yn 2008. Gallai dirywiad economaidd parhaus yn y DU ac yn fyd-eang gael effaith hirdymor ar ein heconomi leol, a fydd yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i unigolion a theuluoedd osgoi caledi a thlodi. Bydd hyn yn cael effaith hirfaith ar y gwasanaethau cymorth lleol y bydd eu hangen ar unigolion a chymunedau.

Newidiadau yn y boblogaeth

Mae ein poblogaeth yn newid a rhagwelir y bydd yn parhau i newid. Mae poblogaeth y fwrdeistref yn tyfu yn ôl cyfradd gyflymach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a rhagfynegir y bydd yn codi o'i lefel bresennol, sef ychydig yn llai na 139,000, i dros 152,000 erbyn 2033. Mae pobl yn byw yn hwy a rhagfynegir y bydd cyfran y bobl hŷn yn y fwrdeistref yn parhau i gynyddu ar yr un pryd ag y bydd nifer y bobl o oedran gweithio'n gostwng. Bydd angen i'r Cyngor a'r GIG wneud newidiadau i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu ymateb i'r heriau a achosir gan boblogaeth sy'n tyfu ac yn mynd yn hŷn.

Heriau o ran iechyd

Ceir materion iechyd sy'n effeithio ar ein poblogaeth ar hyn o bryd. Gwyddom fod rhai agweddau ar ffyrdd dinasyddion o fyw yn cael effaith fawr ar eu hiechyd a lles hirdymor. Mae mynediad at fwyd digonol a maethlon yn bwysig. Mae Arolwg Iechyd Cymru'n amlygu cyfraddau gordewdra uchel, beichiogrwydd ymhlith merched dan 18 a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn y fwrdeistref. Mae'r arolwg yn dynodi bod 46% o'r oedolion yn y fwrdeistref yn yfed alcohol ar lefelau sydd uwchlaw'r canllawiau cyhoeddus. Mae nifer y bobl sy'n gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn y fwrdeistref yn cynyddu serch hynny, ac mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Yn ogystal â'r baich sylweddol y mae ffyrdd gwael o fyw ac iechyd gwael yn ei osod ar yr unigolion yr effeithir arnynt, ceir nifer o effeithiau negyddol ehangach i deuluoedd, cymunedau ac i'r economi leol. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n camddefnyddio alcohol brofi nifer o broblemau afiechyd o ganlyniad i hynny. Bydd triniaeth ar gyfer y problemau hyn yn cael ei darparu gan y Gwasanaeth Iechyd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor a phartneriaid eraill yn rhan o ymdrin ag effeithiau posib ehangach y camddefnydd hwn. Gallai'r rhain gynnwys cam-drin domestig a'r teulu'n chwalu, yr unigolyn yn colli ei swydd a rhagolygon gwael ar gyfer ailgyflogi, sy'n creu caledi ariannol i'r teulu ac yn arwain at drallod i'r gymuned ehangach. Gall camddefnyddio alcohol effeithio hefyd ar y tebygolrwydd y bydd unigolyn yn datblygu cyflyrau difrifol yn ddiweddarach yn ei (h)oes, megis dementia. Mae ymdrin â'r holl broblemau hyn yn golygu cost ariannol sylweddol pan fo adnoddau a chyllidebau eisoes dan bwysau.

Mae nifer o ddangosyddion iechyd yn ymwneud â'r fwrdeistref yn ei chyfanrwydd, ond pan ydym yn bwrw golwg fanylach, ar lefel ddaearyddol is, gallwn weld amrywiadau eithaf sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd. Yn fras, mae gan gymunedau yng ngogledd y fwrdeistref lefelau uchel o ran hawlio budd-daliadau, diweithdra ac afiechyd tra bod gan ardaloedd yn y gorllewin gyfran uwch o bobl dros 65 oed.

Os na fyddwn yn gweithredu, bydd y materion iechyd a'r anghydraddoldebau iechyd hyn ynghyd â'r holl effeithiau ehangach yn parhau ac fe allai eu heffeithiau niweidiol ddod yn fwy helaeth. Bydd angen i ddinasyddion gymryd mwy o gyfrifoldeb am gadw'n heini ac yn iach ac am eu lles cyffredinol. Bydd y Cyngor yn helpu pobl i wneud hyn drostynt eu hunain ond bydd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rheiny sydd fwy mewn angen.

Cyflawniad addysgol

Gwyddom fod cyflawniad addysgol gwael yn cael effaith negyddol ar les emosiynol pobl ifanc. I'r un graddau, mae hunan-fri isel yn atal pobl ifanc rhag cyrraedd eu potensial. Yn genedlaethol ac yn lleol, mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn tueddu i beidio â gwneud cystal yn yr ysgol â phlant o deuluoedd sy'n fwy cefnog. Gall cymunedau brofi amddifadedd economaidd parhaus os yw pobl ifanc yn methu â chynnal bywoliaeth.

Mae angen i ni wella lefelau cyflawniad addysgol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2 (erbyn y bydd disgyblion yn cwblhau eu haddysg gynradd) a Chyfnod Allweddol 4 (ar ddiwedd eu haddysg uwchradd statudol), ac mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Mae ein hysgolion wedi bod yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod yr holl blant yn cyrraedd eu llawn botensial a bydd angen i ni barhau i adnabod plant sydd mewn perygl o dangyflawni a chymryd camau gweithredu priodol i roi cymorth iddynt.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn bwysig iawn er mwyn i blant gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r cyfraddau presenoldeb yn ein hysgolion wedi codi'n flynyddol, ond dymunwn eu gwella ymhellach byth.

Blaenoriaethau cenedlaethol a dyletswyddau statudol

Y Rhaglen Lywodraethu yw polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi blaenoriaethau cenedlaethol a chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu, y bydd gan awdurdodau lleol ran bwysig yn y gwaith o'u cyflawni.

Yr hyn sydd o bwys arbennig ar hyn o bryd yw'r camau gan Lywodraeth y DU i gyflwyno diwygiadau lles sylweddol dros y pedair blynedd nesaf. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch goblygiadau'r newidiadau i ddinasyddion a'r effaith ar y modd y byddwn yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl y gallai'r diwygiadau effeithio arnynt.

Mae gennym hefyd ddyletswydd statudol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i sicrhau y bydd ein blaenoriaethau ar gyfer gwella'n gwneud cyfraniad clir i o leiaf un o'r egwyddorion canlynol:

- gwneud cynnydd tuag at amcanion strategol y Cyngor (h.y. ein chwe blaenoriaeth ar gyfer gwella);
- gwella ansawdd gwasanaethau;
- gwella argaeledd gwasanaethau;
- gwella tegwch trwy leihau anghydraddoldeb wrth geisio mynediad at neu elwa o wasanaethau, neu wella lles dinasyddion a chymunedau;
- arfer swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn yr ardal;
- gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a swyddogaethau; ac
- arloesi a newid sy'n cyfrannu at unrhyw un o'r amcanion uchod.

Gwasanaethau presennol

Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gofal cymdeithasol i oedolion (mae hyn yn cynnwys gwasanaethau i bobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl â chyflyrau iechyd meddwl).

- Cydwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a ddarperir ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd PABM, i wneud darpariaeth yn fwy didor a chost-effeithiol.
- Gwasanaethau i hyrwyddo ac ategu chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Gwasanaethau i roi cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd (mae hyn yn cynnwys gwasanaethau diogelu, maethu a mabwysiadu, troseddau ieuencid a phlant ag anableddau).
- Addysg (gan gynnwys gwasanaethau anghenion arbennig).
- Prydau yn y cartref.
- Gwarchod y cyhoedd, iechyd yr amgylchedd a safonau masnach (er enghraifft rheoli llygredd, gwasanaethau diogelwch bwyd, cyngor i ddefnyddwyr, gwasanaethau lles anifeiliaid a rheoli plâu).
- Gwasanaethau'r strategaeth dai a digartrefedd.
- Cynllunio a rheoli adeiladu (er enghraifft ymdrin â cheisiadau cynllunio a gorfodi cynllunio, defnydd o dir a sicrhau bod mathau penodol o waith adeiladu'n cydymffurfio â rheoliadau adeiladu ar gyfer iechyd a diogelwch, mynediad a chyfleusterau, ffactorau amgylcheddol a.y.b.).
- Casglu a gwaredu gwastraff (mae hyn yn cynnwys ailgylchu).
- Gweinyddu budd-dal tai a'r dreth gyngor.
- Hamdden (gan gynnwys y gwasanaethau celfyddydau, llyfrgelloedd a dysgu oedolion yn y gymuned).
- Cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.
- Cludiant a phrifyrdd (mae hyn yn cynnwys gofal am strydoedd a glanhau strydoedd a pharcio).
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion.

Mae'r holl wasanaethau hyn yn bwysig, ond nid yw pob un ohonynt wedi'i gynnwys yn ein chwe phrif flaenoriaeth – mae gennym ddyletswydd statudol i ddarparu rhai ohonynt; ac rydym yn darparu eraill am eu bod yn cyfrannu at y deilliannau cyffredinol yr ydym yn dymuno'u cyflawni ar gyfer ein dinasyddion. Caiff ein holl weithgareddau eu hategu gan ein gwasanaethau corfforaethol (Cyllid, Adnoddau Dynol, TGCh, Eiddo, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwasanaethau Cyfreithiol).

Cydraddoldebau, datblygu cynaliadwy a'r iaith Gymraeg

Cydraddoldeb a chynaliadwyedd yw'r egwyddorion arweiniol sy'n tanategu popeth a wnawn. I'n galluogi i ddatblygu polisïau a gwasanaethau teg a chynaliadwy rydym yn mynd ati'n barhaus i geisio deall cyfansoddiad ein poblogaeth yn ôl ystod o ffactorau, gan gynnwys rhywedd, oedran, ethnigrwydd, crefydd, gweithio neu fod wedi ymddeol a dioddefwyr salwch hirdymor. Rydym yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb a thegwch yn ein holl rolau fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau a chyflogwr. Mae

ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012-16 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'n camau gweithredu i gyflawni pob un o'r amcanion.

Mae datblygu cynaliadwy'n golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dinasyddion a chymunedau fel bod nid yn unig y genhedlaeth bresennol, ond hefyd y cenedlaethau sydd i ddod, yn cael ansawdd bywyd gwell. Ar ben hynny, gwneir hyn mewn ffyrdd sy'n hybu hawliau a chyfle cyfartal i bawb ac sy'n parchu'r amgylchedd naturiol a diwylliannol.

Rydym yn parhau i sicrhau bod polisiau datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith a'u bod yn cael eu hintegreiddio yn ein trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn trin Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Mae Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol y Cyngor yn rhedeg o 2012 tan 2015. Mae'n rhoi i'r egwyddor hon ei heffaith ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2012. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn datblygu gwasanaethau'r Cyngor yn y cyfnod hwn fel eu bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau tuag at y boblogaeth Gymraeg, yn unol ag uchelgeisiau lleol a chenedlaethol.

Safbwyntiau dinasyddion

Rydym wastad yn ymgeisio i ddylunio a chyflenwi gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion pobl. I wneud hyn rydym yn ceisio rhyngweithio â dinasyddion trwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio ystod o offer i ddod i wybod am eu hanghenion a'u profiadau o'n gwasanaethau. Rydym yn ymgysylltu â phobl trwy ein gwefan (www.bridgend.gov.uk), trwy'r e-bost (talktous@bridgend.gov.uk), trwy ein llinell gymorth gwasanaethau cwsmeriaid 24 awr (01656 643643) a thrwy ddefnyddio arolygon, grwpiau ffocws a'r cyfryngau cymdeithasol (www.twitter.com/BridgendCBC). Rydym hefyd yn cynnal ymarferion ymgynghori arbennig i geisio safbwyntiau dinasyddion am gynigion polisi penodol ac i gael adborth ar ansawdd a phwysigrwydd gwasanaethau.

Yn ogystal ag ymgynghoriadau ffurfiol, mae rhai gwasanaethau'n derbyn adborth yn barhaus trwy ddefnyddio holiaduron, arolygon a thrafodaethau grŵp. Er enghraifft, ceir holiaduron gofal cartref, y grŵp 'Having a Say' a Fforwm Rhieni i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd ac ymweliadau gan aelodau etholedig â'n lleoliadau preswyl a dydd i blant ac oedolion i archwilio ansawdd y gofal, yn bennaf trwy adborth defnyddwyr gwasanaethau. Ceir hefyd arolygon Blwyddyn 6 – 9 i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau byw'n iach i blant a phobl ifanc.

Rydym wedi ymgynghori'n helaeth ynghylch cynnwys y Cynllun Corfforaethol hwn, gan geisio safbwyntiau gan bobl, busnesau a phartneriaid lleol trwy'r wasg, yr e-bost, ein gwefan a grwpiau ffocws. Mae'r wybodaeth a gasglwyd gennym trwy'r broses ymgynghori wedi ein helpu i fireinio ein blaenoriaethau ar gyfer gwella a'n camau gweithredu i ategu'r Cynllun Corfforaethol hwn. Bydd gwybodaeth lawn am yr adborth a gafwyd a sut y cafodd ei ddefnyddio i ddylanwadu ar, a llywio datblygiad terfynol y cynllun hwn yn cael ei chyhoeddi ar wahân.

Mae'r pwyntiau cyffredinol, allweddol o'r adborth a'n hymatebion ninnau fel a ganlyn :

- Roedd bron pawb a ddarparodd safbwyntiau'n cefnogi pwysigrwydd y blaenoriaethau, ac yn ystyried mai'r angen i wella'r economi leol, cyfleoedd gwaith a sgiliau oedd yr un bwysicaf.
- Mewn ymateb i bryderon ynghylch pa mor hawdd i'w cyflawni yw'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau ategol, fe wnaethom adolygu pob blaenoriaeth i sicrhau bod ein nodau a'n camau gweithredu arfaethedig yn realistig ac yn fforddiadwy.
- Fe gawsom awgrymiadau ynghylch gwelliannau a meysydd ychwanegol i'w cynnwys. Roedd nifer sylweddol o'r meysydd hyn yn ymwneud â gwasanaethau parhaus yr ydym yn eu darparu. Mewn ymateb, rydym wedi cynnwys mwy o wybodaeth yn yr adran sy'n ymdrin â Gwasanaethau Presennol a hefyd gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau perthnasol hyd yma, dan bob blaenoriaeth.
- Cafwyd awgrymiadau defnyddiol ynghylch y modd y gall unigolion a chymunedau gyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau. Yn arbennig, argymhellwyd ein bod yn rhoi enghreifftiau o'r rhain o fewn y cynllun. Rydym felly wedi ychwanegu adran sy'n cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer pob blaenoriaeth.
- Mynegwyd pryderon bod manylion y cyflawniadau arfaethedig a'r ymrwymadau i gyflawni'r blaenoriaethau'n annigonol. Gan fod gwybodaeth benodol wedi'i chynnwys yn ein cynlluniau lefel-is, rydym wedi cryfhau ein heglurhad o'r lefelau o fanylder sydd i'w cael yn y cynlluniau busnes a gwasanaeth tanategol hyn yn yr adran ar Gynlluniau Busnes Effeithiol.
- Roedd y mesurau o lwyddiant yn cael eu cefnogi ar y cyfan, ond rydym wedi cymryd camau i symleiddio ac egluro'r mesurau ymhellach.
- I roi darlun mwy hirdymor o gynnydd, rydym wedi cynnwys tabl sy'n dangos y data sylfaen ar gyfer y mesurau o lwyddiant a'r perfformiad a gyflawnwyd eisoes, lle y bo'n berthnasol.

Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn

Strategaeth ariannol gref sy'n ein helpu i gyflawni mwy am lai

Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol heriol iawn. Daw ein cyllid o ddwy ffynhonnell allweddol – grantiau Llywodraeth Cymru ac incwm a godir yn lleol (er enghraifft, y Dreth Gyngor a ffioedd a thaliadau). Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi profi gostyngiadau mewn termau real yn y cyllid y mae'n ei gael gan Lywodraeth Cymru ac, ar yr un pryd, mae'r hinsawdd economaidd wedi arwain at ostyngiad yn lefel yr incwm yr ydym wedi gallu ei godi'n lleol. Nid yw ein sefyllfa ariannol yn debygol o wella dros y pedair blynedd nesaf gan fod disgwyl y bydd Llywodraeth y DU yn gostwng cyllid ymhellach. Rydym yn rhagweld y bydd yn rhaid i ni arbed oddeutu £24 miliwn dros gyfnod y cynllun hwn. Rydym eisoes wedi arbed £9.3 miliwn dros y tair blynedd ddiwethaf a phob blwyddyn mae'n dod yn fwyfwy anodd gostwng ein costau heb effeithio ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Gyda llai o arian, ni fydd yn rhwydd cyflawni ein gweledigaeth i wella bywydau ein holl ddinasyddion. Wedi'i halinio â'r Cynllun Corfforaethol hwn mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2013-17, sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ategu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hefyd yn cynnwys manylion ein cynlluniau ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf hyd at 2017.

Rydym ni am i bobl fod yn hyderus bod y Cyngor yn effeithlon a'n bod yn ymrwymedig i gael gwerth am arian a gwerth cyhoeddus o'n holl weithgareddau. Rydym yn benderfynol o wneud y gorau o'n hadnoddau ac mae hynny'n golygu ymgnio'n barhaus i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae ein blaenoriaeth ar gyfer gwella sy'n dwyn y teitl 'Gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau' yn rhoi mwy o fanylion ynghylch sut yr ydym yn mynd i gyflawni ein harbedion.

Cynlluniau busnes effeithiol

Y Cynllun Corfforaethol hwn yw'r cynllun uchaf sydd gennym o ran lefel. Mae'n darparu gwybodaeth am y deilliannau yr ydym yn dymuno'u cyflawni a'r prif gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i wneud hyn. Yn ategu'r cynllun hwn mae cynlluniau busnes blynyddol y cyfarwyddiaethau a chynlluniau cyflenwi gwasanaethau, sy'n cynnwys manylion, camau gweithredu, cerrig milltir a mesurau pellach.

Mae ein Cynllun Corfforaethol a chynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau'n ddogfennau cyhoeddus ac fe greffir arnynt gan bwyllgorau ffurfiol y Cyngor yn ogystal â chyrrff rheoleiddio ac arolygu allanol, megis Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn. Hefyd, adroddir wrth Lywodraeth Cymru ar ein perfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion.

[Y Gyfarwyddiaeth Plant](#)

[Cymunedau](#)

[Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio](#)

[Iechyd a Lles](#)

Y mathau a'r lefel o wybodaeth y gallwch ddisgwyl eu gweld mewn cynllun busnes gan gyfarwyddiaeth neu gynllun gwasanaeth yw:

- disgrifiadau byr o'r gwasanaethau a ddarperir gan y gyfarwyddiaeth a'r prif feysydd gweithgarwch;
- cynnydd a chyflawniadau allweddol yn y flwyddyn flaenorol;
- yr amodau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau, megis y prif anawsterau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau a newidiadau neu ddatblygiadau disgwylidig a allai gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y gwasanaeth;
- risgiau posib sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a'r camau gweithredu sydd, neu a fydd, yn cael eu cymryd i reoli a lleihau'r risgiau hynny;
- amlinellad o'r adnoddau, megis niferoedd y staff a chyllid, sydd gan y gyfarwyddiaeth a'i gwasanaethau; a hefyd
- yr ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol y bwriedir iddynt gael eu cyflawni neu eu hybu gan y gyfarwyddiaeth yn ystod 2013-14 ac o dan y rhain, y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd, y partneriaid y byddwn yn gweithio gyda hwy i gwblhau'r camau gweithredu hyn a'r hyn y byddwn yn ei ddefnyddio i fesur a barnu cynnydd a llwyddiant.

Mae cynlluniau busnes blynyddol y cyfarwyddiaethau ar gael yn www.bridgend.gov.uk . Mae copïau caled ar gael ar gais.

Gweithio gyda phartneriaid

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cymhleth sy'n wynebu dinasyddion a chymunedau, megis materion iechyd a throseddau ac anhrefn. Mae gennym eisoes sawl enghraifft dda o fynd ati ar y cyd i gyflenwi gofal ar gyfer pobl ag anabledd corfforol neu nam synhwyaidd, darparu cyfleusterau hamdden a gwella perfformiad ein hysgolion. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector, lle gallwn weld y bydd gweithio gyda phartneriaid yn gwella gwerth am arian neu ansawdd y gwasanaeth neu fynediad ato.

Mae ein Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI), sy'n cynnwys partneriaid o fewn y fwrdeistref, wedi cyhoeddi ei Gynllun Partneriaeth Integredig Sengl sy'n dwyn y teitl 'Sir Pen-y-bont Ynghyd'. Mae 'Sir Pen-y-bont Ynghyd' yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni pedwar deiliant allweddol y mae'r BGLI yn dymuno'u cyflawni ar gyfer y fwrdeistref sirol – deilliannau sydd yr un fath â'r rhai yr ydym ninnau wedi'u hadnabod yn gynharach yn y cynllun hwn. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn wedi'i alinio â'r cynllun 'Sir Pen-y-bont Ynghyd', a fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni'r ymrwymadau yr ydym wedi'u gwneud i'n partneriaid.

Dros y pedair blynedd nesaf byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys:

- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont;
- Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n rhoi'r cyfle i fusnesau lleol ddod ynghyd a gweithredu fel llais ar y cyd, gan ymateb i faterion a datblygiadau lleol sy'n effeithio ar fusnesau a masnach;
- Coleg Pen-y-bont;
- Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr (nod cyffredinol y fforwm yw hybu cydraddoldeb yn y fwrdeistref trwy roi cymorth gyda'r broses o leisio a datrys materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, a helpu i feithrin cysylltiadau cryf a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd);
- Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cymdeithas Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cyngor Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe;
- grwpiau cymunedol;
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru;
- HALO/GLL a phartneriaid masnachol;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
- Awdurdodau lleol eraill;
- grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Heddlu De Cymru;
- Cyngorau tref a chymuned;
- Cyngor Bro Morgannwg;
- Cymoedd i'r Arfordir a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill;
- Ymddiriedolaeth Prawf Cymru; a
- Llywodraeth Cymru.

Mae dinasyddion y fwrdeistref hefyd yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o gyflawni'r cynllun hwn. Mewn perthynas â phob un o'r chwe blaenoriaeth, rydym wedi nodi rhai camau gweithredu awgrymedig y gall pobl eu cymryd ac a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol.

Gallwch chi wneud gwahaniaeth go iawn trwy wirfoddoli i ddarparu gwasanaeth ar gyfer y gymuned, a chithau'n gwneud rhywbeth pleserus ar yr un pryd. Yn ogystal â hynny, gallwch gynyddu eich hyder, cwrdd â phobl newydd, mwynhau heriau newydd ac ennill sgiliau newydd, a all eich helpu hefyd yn eich bywyd gwaith.

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO) yw'r sefydliad ymbarél sy'n cefnogi mudiadau gwirfoddol yn y fwrdeistref. Mae BAVO yn darparu Canolfan Wirfoddoli ar gyfer y sir gyfan sy'n cynnig adnodd cynhwysfawr ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch pob agwedd ar wirfoddoli i bob oedran a gallu.

Gyda thros 300 o fudiadau gwirfoddol cofrestredig ac ystod o gyfleoedd i wirfoddoli, gall BAVO baru eich sgiliau a'ch diddordebau â'r rôl wag sy'n gweddu orau i chi. Mae BAVO yn cynnig cyfweiliadau anffurfiol un-i-un yn eu prif swyddfa ym Maesteg ac mewn ystod o leoliadau allgymorth ledled y fwrdeistref. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan BAVO www.bavo.org.uk neu drwy ffonio 01656 810400.

Mae Gwirfoddoli Cymru hefyd wedi lansio'i wefan newydd i wirfoddolwyr ddod o hyd i gyfleoedd i wirfoddoli yn eich ardal leol. Mae'r wefan www.volunteering-wales.net wedi'i bwriadu i roi llwybr gwelywio eglur a rhwydd i ddarpar wirfoddolwyr ynghyd â rhestr sydyn o'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yn eich ardal.

3 BLAENORIAETH UN – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I DDATBLYGU’R ECONOMI LEOL



Pam fod hyn yn bwysig?

Fel gweddill Cymru, mae'r economi yn y fwrdeistref wedi dioddef yn ystod y dirywiad economaidd cyfredol. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar fusnesau ac unigolion.

Yn 2011-12, er bod ein cyfradd cyflogaeth wedi cyrraedd 70% (y chweched uchaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru), fe gododd y gyfran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn datblygu ein heconomi leol ac adfywio canolau trefi Pen-y-bont, Maesteg a Phorthcawl a'n hardaloedd mwyaf amddifadus. Bydd hyn yn cynnwys ysgogi mewnfuddsoddiad a datblygu isadeiledd. Mae arnom angen gweithwyr crefftus i ddenu busnesau sy'n dod â swyddi crefftus i'r ardal, felly byddwn yn gweithio gyda Choleg Pen-y-bont a busnesau lleol i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau presennol ledled y fwrdeistref.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- gwneud gwaith adfywio ym Mhen-coed, gan gynnwys y cyfleuster parcio a theithio newydd;
- cael cyllid adfywio o £2.5 miliwn ar gyfer Maesteg, £9.3 miliwn ar gyfer Pen-y-bont a £3.5 miliwn ar gyfer harbwr Porthcawl;
- creu 260 o swyddi newydd trwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol;
- helpu busnesau lleol i gydweithio trwy'r Fforwm Busnes;
- cwblhau'r flwyddyn gyntaf o'r rhaglen gwella priffyrdd 3-blynedd; a hefyd
- cwblhau'r rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n mynd trwy Ben-y-bont ar Ogwr.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am fod â chanolau trefi, safleoedd busnes a rhwydweithiau cludiant a chyfathrebu sy'n diwallu anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr, gan sicrhau mynediad at gyfleoedd cyflogaeth sy'n amrywiol ac yn ddiogel yn yr hirdymor.

Byddwn yn:

- parhau i weithredu prosiectau a rhaglenni adfywio allweddol i wella a datblygu ein heconomi ;
- sicrhau bod y fwrdeistref yn gallu cystadlu ar lefel ranbarthol am swyddi, gan ddenu buddsoddiad pellach gan fusnesau newydd a phresennol a chefnogi entrepreneuriaid;
- gweithio gyda darparwyr cludiant cyhoeddus a chymunedau i wella cysylltiadau cludiant;
- gweithredu Hawliau Tramwy, llwybrau beicio a llwybrau cymunedol i ddarparu dewisiadau eraill yn lle cerbydau a chluent cyhoeddus;
- gwneud gwaith i briffyrdd er mwyn gwella'r rhwydwaith priffyrdd a diogelwch priffyrdd ar y cyfan; a hefyd
- parhau i ddenu twristiaid i'r ardal i gynnal yr economi.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- siopa'n lleol i gefnogi ein heconomi leol;
- (i berchnogion busnesau) bod â chadwyn gyflenwi leol, darparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc trwy brentisiaethau, ac adnabod y sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol a hysbysu sefydliadau dysgu/addysg yn eu cylch; a hefyd
- ein helpu ni i gadw ein strydoedd yn lân trwy beidio â gollwng gwm cnoi a sbwriel (bob blwyddyn, mae'n costio £45,000 i waredu gwm cnoi o balmentydd ein strydoedd ac £1.7 miliwn i lanhau ein strydoedd a'n priffyrdd).

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd cyfanswm y refeniw sy'n dod i mewn i'r fwrdeistref o ganlyniad i dwristiaeth yn tyfu;
- pan fydd nifer yr ymwelwyr â'r fwrdeistref yn cynyddu;
- pan fydd ein cyfraddau cyflogaeth a chyflogaeth ieuentid yn gwella mewn perthynas â'r cyfartaledd cenedlaethol
- pan fydd y gyfran o'r boblogaeth, 16-18 oed, yr hysbyswyd Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn gostwng;
- pan fydd y ganran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio'n gostwng;
- pan fydd nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm-isel (60% neu lai o'r incwm canolrifol) yn gostwng;
- pan fydd hyd a nifer y llwybrau cymunedol yn cynyddu;
- pan fydd y ganran o'r ffyrdd ar y cyfan sydd mewn cyflwr gwael yn gostwng;
- Pan fydd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen yn codi. (Mae GVA yn fesur o faint economi ardal); a hefyd
- Pan fydd Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) y pen yn cynyddu. (Mae GDHI yn mesur lefel yr incwm gwario sydd ar gael i aelwydydd).

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2013-14

Byddwn yn parhau i adfywio canolau ein trefi, yn mynd ati mewn ffordd weithredol i chwilio am gyfleoedd cyllido newydd ac annog buddsoddiadau newydd i helpu i hybu ein heconomi leol, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol ac yn denu mwy o ymwelwyr i'r fwrdeistref.

Byddwn yn:

- cwblhau'r prosiect adfywio a ariennir â chyllid Ewropeaidd yng nghanol tref Maesteg;
- gweithio tuag at gwblhau gwaith adfywio cyfredol yng nghanolau trefi Pen-y-bont a Phorthcawl;
- cwblhau gwaith dichonoldeb ar gyfer datblygiadau cymysg yng nghanol tref Pen-y-bont;
- blaenoriaethu safleoedd nad oes llawer o ddefnydd arnynt ar gyfer eu datblygu yng Nghwm Llynfi;
- dechrau adeiladu priffordd newydd Porthcawl, i ryddhau safleoedd ar gyfer eu datblygu;
- dechrau datblygu safle Heol Ewenni ym Maesteg;
- denu cyllid allanol i weithredu prosiectau adfywio;
- defnyddio'r Gronfa Fuddsoddi Leol i ategu buddsoddiadau mewn busnesau a chreu swyddi;
- parhau â phrosiectau Blagur Gwyrdd i ategu buddsoddiadau mewn micro-fusnesau mewn ardaloedd gwledig;
- mynd ati mewn ffordd weithredol i gynnig am gyllid i gynorthwyo cwmnïau presennol i ddatblygu a helpu entrepreneuriaid lleol i sefydlu busnesau newydd;
- gwella cysylltiadau â'r prif gyfnewidfeydd rheilffordd a bysiau i gerddwyr a cherbydau;
- cynhyrchu Cynllun Rheoli Cyrchfannau sy'n adnabod rolau a chamau gweithredu rhanddeiliaid o ran rheoli cyrchfannau twristaidd penodol;
- parhau i gynnwys pobl yn y cynllun 'Llwybrau Cyflogaeth' i'w helpu i gael swyddi;
- cyflawni ail flwyddyn y rhaglen gwella priffyrdd tair-blynedd;
- gweithredu a monitro cynllun Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio;
- blaenoriaethu a chyflawni hawliau tramwy y disgwylir penderfyniad yn eu cylch a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy, a
- datblygu Tŷ a Pharc Bryngarw fel lle y gall pobl ddysgu a datblygu sgiliau newydd ac y gall ymwelwyr fwynhau profiad iechyd o ansawdd.

4 BLAENORIAETH DAU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I GODI UCHELGEISIAU A CHYNYDDU CYFLAWNIAD ADDYSGOL



Pam fod hyn yn bwysig?

Rydym ni am i'n holl blant a phobl ifanc fod yn uchelgeisiol. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae addysg dda yn darparu'r llwyfan gorau i i bobl ifanc ar gyfer llewyrch a lles yn y dyfodol. Mae addysg yn helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer pob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys ennill sgiliau ar gyfer cyflogaeth, gofalu am eu teuluoedd a chyfrannu at eu cymunedau.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae ein hysgolion yn cyflawni canlyniadau addysgol sydd, ar y cyfan, yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae perfformiad ysgolion yng Nghymru'n wan ar y cyfan o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU a gwledydd datblygedig eraill. Dim ond tua hanner y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol â chanlyniadau TGAU da – nid yw'r hanner arall yn gwneud hynny. Os ydym ni am i'n plant a phobl ifanc fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i ni wneud yn well. Mae arnom angen i ysgolion, rhieni a disgyblion fod yn uchelgeisiol a chredu y gall ein pobl ifanc wneud yn dda – oherwydd y gallant! Gall yr holl ddysgwyr gyflawni llwyddiant trwy eu haddysg, yn enwedig os yw eu cymunedau'n rhannu'r uchelgais hwnnw a'r gred honno.

Fel arfer, nid yw plant sy'n dioddef mwy o amddifadedd neu sydd mewn tloedi yn gwneud cystal yn yr ysgol ag eraill. Mae'n rhaid i ni geisio helpu'r plant hyn ac ymagnïo i leihau'r bwlch, fel bod yr holl ddysgwyr yn gwneud yn dda. Bydd hynny'n helpu i'w paratoi'n well ar gyfer pob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys ennill sgiliau ar gyfer cyflogaeth a gofalu am eu teuluoedd a chyfrannu at eu cymunedau.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- mae cyflawniadau disgyblion yn ôl y rhan fwyaf o fesurau tua'r un fath â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, er bod amddifadedd yn uwch na'r cyfartaledd yn ardal y fwrdeistref;
- mae bron pob ysgol wedi cael arolygiadau cadarnhaol gan Estyn dros y blynyddoedd diwethaf;
- buddsoddwyd yn sylweddol mewn adeiladau ysgol newydd neu welliannau i rai presennol, gan gynnwys Ysgol Maesteg; Ysgol Gynradd Braclá; Ysgol Gynradd Caerau; Ysgol Gynradd Llidiard; Ysgol Gynradd Hen Gastell; Ysgol Gynradd Pen-y-fai; YGG Llangynwyd; Ysgol Gyfun Bryntirion; Coleg Cymunedol y Dderwen ac Ysgol yr Archesgob McGrath;
- bu gwelliannau i'r ddarpariaeth mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol;
- ar y cyd â phartneriaid, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gostwng nifer y bobl ifanc 16 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). Mae pobl ifanc sydd naill ai yn y sefyllfa hon neu mewn perygl o fod yn y sefyllfa hon bellach yn cael ymgynghorydd personol a ddyrennir i roi cymorth iddynt a hefyd i adnabod prosiectau a chynlluniau eraill a all eu helpu;
- mae nifer y cyrsiau a gynigir gan ein hysgolion a darparwyr addysg/dysgu eraill i ddisgyblion 16+ oed wedi cael ei gynyddu'n sylweddol;
- rydym yn cynnig cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu sy'n gysylltiedig â swyddi; ac
- mae ein Gwasanaeth Ieuencid yn parhau i annog pobl ifanc i ymgysylltu â chyfleoedd gwirfoddoli, gan eu galluogi i gael profiad yn yr amgylchedd gweithio.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am sicrhau, trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant lleol, bod ein plant a phobl ifanc yn cyflawni eu huchelgeisiau trwy welliannau i'w canlyniadau addysgol, trwy ennill cymwysterau a thrwy gael hyfforddiant.

Erbyn 2017, rydym ni am i bob ysgol fod yn gwella yn ôl cyfradd sy'n llawer cyflymach fel bod:

- o leiaf ddwy ran o dair o'r bobl ifanc yn cyflawni isafswm o 5 TGAU â Gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, ar ddiwedd eu haddysg uwchradd statudol;
- bron pob disgybl yn cyflawni llythrennedd a rhifedd gweithredol (y lefel sylfaenol o sgiliau y mae eu hangen i ymdopi mewn bywyd) erbyn yr amser y maent yn cwblhau eu haddysg gynradd;
- yr holl bobl ifanc yn dilyn llwybr dysgu eglur a chynyddol mewn addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith ar ôl 16 oed;
- y bwlbh mewn llythrennedd a rhifedd rhwng y rheiny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cael ei leihau a phresenoldeb mewn ysgolion yn gwella;
- dysgwyr yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwylidig rhwng pob cyfnod allweddol tra'u bod yn yr ysgol; a hefyd
- llwyddiannau'r holl bobl ifanc yn cael eu cydnabod mewn cofnod cyrhaeddiad cynhwysfawr a chynhwysol.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, colegau, rhieni/gofalwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant lleol i wneud y canlynol:

- cymryd cyfres o gamau gweithredu a fydd yn helpu plant a phobl ifanc i wella'u sgiliau darllen, ysgrifennu a rhif, fel eu bod wedi'u harfogi'n briodol ar gyfer dysgu pellach a byd gwaith;
- parhau i ddatblygu addysg a hyfforddiant ar gyfer y rheiny dros 16 oed, fel bod ganddynt fynediad cyfartal at ystod eang o gyfleoedd dysgu cyffredinol ac yn y gwaith;
- parhau i fuddsoddi mewn darparu addysg ar gyfer y rhai bach iawn, gan adeiladu ar lwyddiant y Fenter Dechrau'n Deg a'i hymestyn i ardaloedd newydd yn y fwrdeistref;
- sicrhau bod gan yr holl bobl ifanc fynediad at gymorth personol effeithiol a'u bod yn cael cyngor o ansawdd uchel a gwybodaeth ddiduedd am y cyfleoedd dysgu sy'n agored iddynt;
- parhau i leihau meintiau dosbarthiadau a'r cymarebau rhwng disgyblion ac athrawon mewn ysgolion cynradd; a hefyd
- gwella cyfleoedd a darpariaeth ar gyfer dysgu gydol oes, yn enwedig i bobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a'r rheiny â chymwysterau, sgiliau neu hyfforddiant isel neu heb ddim o gwbl.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- chwarae rhan ym mhrofiadau dysgu eich plant, er enghraifft trwy siarad gydag athrawon a helpu eich plant gyda'u gwaith cartref;
- sicrhau bod eich plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, gan fod absenoldeb yn gwneud gwahaniaeth o ran pa mor dda y mae plant yn dysgu ac yn ennill cymwysterau;
- manteisio ar gyfleoedd dysgu i oedolion a allai eich helpu chi a helpu eich teulu;
- annog plant a phobl ifanc i anelu'n uchel a gweithio'n galed – nid oes rheswm pam na ddylai pob plentyn allu llwyddo; a
- gwirfoddoli i helpu plant i ddysgu yn eich ysgol leol, neu fe allech gefnogi clybiau ar ôl ysgol a chlybiau ieuenctid.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd y rhan fwyaf o'n plant yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfrif i lefel o sgil sy'n angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd, erbyn yr amser eu bod yn cwblhau eu haddysg gynradd;
- pan fo ein plant yn cyflawni'r lefel o gymhwyster a ddisgwyllir ganddynt mewn cyrsiau TGAU;
- pan fo ein plant sydd wedi gadael yr ysgol naill ai'n cael mwy o addysg, yn dod o hyd i gyflogaeth neu'n cael rhyw fath o hyfforddiant;
- pan fo ein plant wastad yn gadael addysg neu unrhyw fath o hyfforddiant gyda chymhwyster cymeradwy a fydd yn helpu i roi iddynt ddechrau da mewn bywyd; a hefyd
- pan fo plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael yr un faint o lwyddiant trwy gydol eu cyfnod mewn addysg â'r rheiny nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.

Ein hymrwymiaadau ar gyfer 2013-14

Rydym yn dymuno sicrhau newid mawr yn y gyfradd gwella, fel bod y canlynol yn wir erbyn Medi 2014:

- bod o leiaf 60% o'r bobl ifanc yn cyflawni isafswm o 5 TGAU â Gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, ar ddiwedd eu haddysg uwchradd statudol;
- bod y rhan fwyaf o blant yn cyflawni llythrennedd a rhifedd gweithredol erbyn diwedd eu haddysg gynradd;
- bod Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y fwrdeistref yn cael ei gryfhau trwy weithio'n well gyda phartneriaid a sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu lleol, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd, rhifedd a sgiliau TG; a hefyd
- ein bod wedi sefydlu rôl llyfrgelloedd o fewn rhwydwaith dysgu, gan greu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd camau newydd i ddysgu sgiliau a chynyddu eu hunanhyder .

Byddwn yn gweithio'n arbennig mewn partneriaeth gydag ysgolion i wneud y canlynol:

- codi dyheadau ymhlith yr holl bobl ifanc a'u teuluoedd;
- sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a bod eu lles a'u hymdeimlad o hunanwerth yn cael eu hybu;
- lleihau meintiau dosbarthiadau a chymarebau rhwng disgyblion ac athrawon yn ein hysgolion cynradd;
- sicrhau bod penaethiaid ysgolion, staff ysgolion a chyrrff llywodraethol ysgolion yn gweithredu'n fwy effeithiol i wella perfformiad eu hysgolion;
- rhoi cymorth i ysgolion ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion;
- sicrhau ein bod yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc mwy abl sydd, ar y cyfan, yn tangyflawni ar hyn o bryd; a hefyd
- cynnig i bobl ifanc 14-19 oed y math cywir o gymhwyster iddynt hwy, er enghraifft, yn yr ysgol neu'n gysylltiedig â swydd.

5 BLAENORIAETH TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU'N GYNNAR



Pam fod hyn yn bwysig?

Gall llawer o broblemau a wynebwr gan blant a theuluoedd gael eu datrys os cânt eu hadnabod ac os eir i'r afael â hwy yn ddigon cynnar. Unwaith y daw'r anawsterau i fod yn fwy cymhleth a difrifol, maent anos ac yn fwy costus o lawer i'w datrys.

Mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal a'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn y fwrdeistref yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae ein niferoedd yn cynyddu. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy o her cadw'r holl blant yn ddiogel.

Mae'n allweddol bwysig i blentyn gael cefnogaeth gariadus o ddyddiau cyntaf ei f/bywyd ac yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn iddo ef neu iddi hi gael bywyd hapus a boddhaus. Am y rheswm hwn byddwn yn rhoi cymorth i gyflwyno'r rhaglen Dechrau'n Deg yn raddol mewn mwy o ardaloedd yn y fwrdeistref ac yn cydweithio'n agosach gyda gwasanaethau iechyd mewn Timau Cymunedol Amlasiantaeth.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- rydym wedi sefydlu Tîm Cymunedol Amlasiantaeth yn ardal orllewinol y fwrdeistref i helpu teuluoedd ;
- rydym wedi trefnu bod staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i ymgysylltu â theuluoedd a helpu rhieni i chwarae mwy o ran yn addysg eu plant;
- rydym wedi sefydlu Just @sk+, gwasanaeth cymorth a gwybodaeth amlasiantaeth sy'n helpu pobl ifanc gyda materion megis digartrefedd;
- rydym wedi sefydlu rhaglenni rhianta i helpu rhieni i reoli ymddygiad anodd eu plant;
- mae Dechrau'n Deg yn parhau i ddarparu ystod lawn o wasanaethau yn ardaloedd Afon Y Felin, Betws a Chaerau ac mae wedi ehangu i gynnwys y Felin Wyllt. Mae ehangiadau helaeth pellach yn yr arfaeth gan adeiladu ar y llwyddiant yn yr ardaloedd hyn; ac
- rydym wedi parhau â'n gweithgareddau i ostwng yr arfer o gyflenwi/gwerthu cynhyrchion megis tybaco ac alcohol i bobl ifanc dan oed ac, o ganlyniad, i leihau'r effaith wael y gall defnyddio cynhyrchion o'r fath ei chael ar eu hymddygiad a'u hiechyd.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am i blant, pobl ifanc a theuluoedd wybod sut a ble i gael help fel y gellir mynd i'r afael â phroblemau'n gynnar cyn eu bod yn troi'n argyfwng.

Byddwn yn:

- dod â gwasanaethau ynghyd i roi cymorth i gymunedau lleol;
- gweithio gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau bod plant yn ffynnu;
- sicrhau bod staff yn wybodus iawn i hyrwyddo gwaith a hyfforddiant ar gyfer rhieni a'u bod yn gallu eu cyfeirio at asiantaethau perthnasol; a hefyd
- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, teuluoedd a'r holl bartneriaid i alluogi pobl i gael mynediad at dai neu gadw tai i ddiwallu eu hanghenion.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gall teuluoedd helpu trwy wneud y canlynol:

- sicrhau, hyd y gallant, bod anghenion sylfaenol holl aelodau'r teulu'n cael eu diwallu;
- ceisio help ar adeg gynnar os oes anghenion sylfaenol nad ydynt yn cael eu diwallu neu os oes problemau teuluol heb eu datrys; a
- bod yn barod i ddod o hyd i atebion i broblemau gyda help gweithwyr cymorth i deuluoedd neu wasanaethau mwy arbenigol.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fyddwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau:
 - plant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - ein plant sy'n derbyn gofal;
 - unrhyw blentyn mewn angen; a hefyd
 - plant sydd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- pan fo'r gyfradd camddefnyddio sylweddau ac alcohol yn gostwng;
- pan fo pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gallu cael y cymorth a'r gefnogaeth barhaus y mae eu hangen arnynt;
- pan fo teuluoedd yn elwa o weithio gyda'r Timau Cymunedol Amlasiantaeth;
- pan fo'r ganran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio'n gostwng; a hefyd
- pan fo cyfradd y rhai sydd heb waith yn gostwng a sgiliau mewn teuluoedd yn cynyddu.


Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2013-14

Rydym am gyflawni mwy o newidiadau cadarnhaol i fwy o blant a theuluoedd.

Byddwn yn:

- gwella'r ffordd yr ydym ni ac asiantaethau eraill yn helpu teuluoedd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu problemau;
- rhoi mwy o arian tuag at gyflogi gweithwyr cymorth i deuluoedd ac yn eu hyfforddi i helpu teuluoedd i wneud penderfyniadau sy'n iawn iddynt hwy;
- sefydlu systemau sy'n golygu mai dim ond unwaith y mae angen i deuluoedd adrodd eu storïau;
- cydgysylltu'r gwahanol wasanaethau fel bod pawb yn gwybod pa gymorth sy'n cael ei roi ac yn gweithio tuag at yr un dibenion;
- rhoi cymorth i ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg i roi budd i gymaint o deuluoedd â phosib;
- rhoi cymorth rhianta i'r rheiny sy'n gofyn am help;
- sefydlu Tîm Cymunedol Amlasiantaeth ym mhob un o'r 3 ardal o fewn y fwrdeistref, fel bod cymorth yn nes at y rheiny ac arnynt ei angen;
- gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid ar rannu gwybodaeth, gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael a chyfathrebu'n effeithiol;
- gostwng nifer y diwrnodau a gymerir ar gyfartaledd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer plant; a hefyd
- parhau i weithredu'r Strategaeth Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc.

6 BLAENORIAETH PEDWAR – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I HELPU POBL AGORED I NIWED I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL



Pam fod hyn yn bwysig?

At ddiben y cynllun hwn, y diffiniad o bobl agored i niwed yw'r unigolion hynny sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth heb gyngor neu gymorth ychwanegol.

Mae ein poblogaeth yn mynd yn hŷn. Mae nifer y bobl sy'n 75 oed ac yn hŷn yn tyfu yn ôl cyfradd o fwy na 4% y flwyddyn. Ceir hefyd nifer cynyddol o bobl ifanc â chyflyrau iechyd cymhleth sy'n byw i fod yn oedolion. Mae'n beth da bod y bobl hyn yn byw yn hwy ac yn goroesi salwch anodd, ond mae hyn yn dod â heriau cynyddol – er enghraifft, dywed Cymdeithas Clefyd Alzheimer, erbyn eu bod yn 85 oed, y bydd dementia ar un ym mhob tri o bobl.

Dywed cyfrifiad 2011 wrthym fod 6.4% o'n dinasyddion rhwng 16 a 64 oed yn profi problemau iechyd hirdymor neu anabledd sy'n cyfyngu llawer ar eu gweithgareddau beunyddiol. Mae hyn yn cymharu â chyfradd gyfartalog o 5.3% ar gyfer Cymru. Canfu Arolwg Iechyd Cymru 2011 fod 14% o'r oedolion yn y fwrdeistref yn dweud eu bod yn cael eu trin am salwch meddwl o'i gymharu â chyfartaledd o 11% ar gyfer Cymru.

Mae angen i ni allu ymateb yn well i anghenion unigolion agored i niwed a chwrdd â'r costau uwch sy'n deillio o'r angen cynyddol am gymorth.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Ar y cyd â phartneriaid, rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- rydym wedi dwyn cynnydd cyson yn nifer y gosodiadau Teleofal yng nghartrefi pobl agored i niwed, gan eu helpu i reoli'r risgiau a all fod yn bresennol;
- rydym wedi cynyddu nifer yr unedau tai Gofal Ychwanegol. Mae'r unedau hyn yn cyfuno manteision llety hunangynhaliol o ansawdd uchel â darpariaeth ar ffurf gwasanaethau gofal a chymorth hyblyg;
- fe agoron ni uned breswyl â 6 ystafell wely sy'n darparu cyfnod byr o gymorth 'galluogi' ar gyfer pobl sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, fel eu bod yn gallu gofalu amdanynt hwy eu hunain pan fyddant yn dychwelyd i'w cartref eu hunain;
- fe sefydlodd y Gwasanaeth Gofal Cartref gynllun galluogi byrdymor i roi cymorth i bobl â dementia barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain;
- mewn partneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn gweithredu rhaglen i ddatblygu gwasanaethau cwmpïadau;
- ar y cyd â Bwrdd Iechyd PABM, rydym wedi sefydlu timau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn o gyflenwi gwasanaethau cymorth a lleol wedi rhoi cymorth i niferoedd cynyddol o ddinasyddion yn eu cartrefi ac wedi helpu i osgoi'r angen i aros yn yr ysbyty;
- rydym yn gwneud cynnydd gyda'r gwaith o ddatblygu un pwynt mynediad ar gyfer pobl ac arnynt angen cymorth cymunedol, gyda'r nod o sicrhau y bydd pobl yn derbyn ymateb mwy cydgysylltiedig ac effeithiol;
- rydym wrthi'n cwblhau'r gwaith o ddatblygu strategaeth Anabledd Dysgu. Bydd hon yn tanategu ein cymorth i bobl ar wahanol adegau yn eu bywydau gyda'r nod o gynyddu eu hannibyniaeth i'r eithaf; ac
- ar y cyd â Bwrdd Iechyd PABM, rydym wedi cynhyrchu Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am alluogi pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r holl bartneriaid i alluogi pobl i fyw'n annibynnol;

- helpu ein partneriaid yn y trydydd sector i ddatblygu ac ehangu eu gwasanaethau i helpu pobl i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol;
- rhoi cymorth i ofalwyr i'w galluogi i barhau yn eu rôl ofalu;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystod o ddewisiadau ar gyfer llety a chymorth i bobl agored i niwed a phobl hŷn ac arnynt angen help i gyflawni neu gynnal annibyniaeth;
- gweithio gyda phartneriaid ledled rhanbarth Bae'r Gorllewin, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a chyda Bwrdd Iechyd PABM i alluogi pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl i gael deilliannau gwell. Ar yr un pryd, byddwn yn osgoi dyblygu, yn gostwng costau ac yn gwella ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor i ddinasyddion; a hefyd
- canolbwyntio ar wella deilliannau iechyd i bobl hŷn a'u gofalwyr trwy weithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau sy'n galluogi pobl hŷn i fyw bywydau iach, annibynnol ac ymgysylltiedig.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- rhoi eich safbwyntiau i ni ar y math o gymorth a gwasanaethau a fyddai o fudd yn eich tyb chi ac ar unrhyw newidiadau i flaenoriaethau a gwasanaethau yr ydym ni'n eu cynnig; a
- gwirfoddoli, gan fod gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu i ofalu am berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd y gyfran o'r bobl hŷn 65+ oed sy'n byw'n annibynnol yn cynyddu;
- pan fydd niferoedd y derbyniadau amhriodol i'r ysbyty a lleoliadau gofal preswyl wedi gostwng (hynny yw, lle gellir darparu gofal mewn lleoliad mwy priodol);
- pan fydd mwy o ofalwyr yn dweud eu bod yn cael cymorth a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu;

- pan fydd defnyddwyr gwasanaethau a gofaluwr yn cael eu cynnwys yn fwy yn y broses o gynllunio gwasanaethau a phan fydd fframwaith sicrhau ansawdd wedi cael ei roi ar waith i fesur pa mor llwyddiannus yw hyn;
- pan fydd costau gofal (gan ystyried effeithiau chwyddiant) am bob person dros 65 oed yn gostwng; a hefyd
- pan fydd nifer y bobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty i fyw gartref gyda phecynnau gofal byrdymor yn cynyddu.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2013-14

Rydym am sicrhau bod gofal a chymorth effeithiol yn cael eu rhoi i bobl ar adeg pan fo'u hamgylchiadau'n golygu bod eu hangen arnynt.

Byddwn yn:

- gweithio gyda Bwrdd Iechyd PABM i ganlyn arni â'r gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Rheoli Atgyfeiriadau Integredig, gan wneud Gwasanaethau Nyrso Ardal yn rhan o'r trefniadau hyn;
- cymryd camau gweithredu cynnar i helpu pobl i barhau i fod yn annibynnol;
- datblygu ein gwaith ar y cyd ledled y rhanbarth i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac nad oes dyblygu diangen mewn gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
- datblygu ymateb mwy effeithiol a chymesur i angen unigolyn trwy asesu pobl dim ond pan fo'u hamgylchiadau'n golygu bod angen asesiad arnynt, gan sicrhau felly eu bod yn derbyn y lefel fwyaf priodol o wybodaeth, cymorth neu ofal;
- parhau i wella'r graddfeydd amser ar gyfer cyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
- adnabod a blaenoriaethu'r gwasanaethau y mae angen eu darparu i gyflenwi ystod o opsiynau tai â chymorth; ac
- adolygu ein trefniadau prynu ar gyfer pecynnau gofal i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol pobl agored i niwed.

7 BLAENORIAETH PUMP – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I FYND I’R AFAEL Â MATERION IECHYD AC ANNOG POBL I FABWYSIADU FFYRDD IACH O FYW



Pam fod hyn yn bwysig?

Dengys ystadegau cenedlaethol fod rhannau o’r fwrdeistref sirol ymhlith y lleiaf iach yng Nghymru. Ceir amrywiadau mawr mewn disgwyliad oes iach, hynny yw nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl ‘iechyd llawn’. Mae disgwyliad oes iach yn amrywio bron i 20 mlynedd ar gyfer dynion ac ychydig dros 20 mlynedd ar gyfer menywod rhwng y wardiau â’r sgoriau gorau a’r wardiau â’r sgoriau gwaethaf yn y fwrdeistref.

Ysmygu yw achos unigol mwyaf afiechyd a marwolaeth y gellir eu hatal ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei adnabod fel prif achos anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae bron i chwarter y bobl yn y fwrdeistref yn ysmygu: mae bron i 50% yn fwy’n ysmygu yn y gogledd nag yn y de. Mae chwarter poblogaeth y fwrdeistref dros eu pwysau ac oddeutu traean o’r oedolion yn dweud eu bod yn yfed mwy na’r lefelau argymelledig o leiaf unwaith yr wythnos.

Gall problemau iechyd yn ogystal ag amddifadedd, anawsterau ariannol a chamddefnyddio sylweddau gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles emosiynol person. Mae’n rhaid i ni weithredu i fynd i’r afael â’r materion iechyd hyn a rhoi cymorth i’n dinasyddion helpu eu hunain i wella’u lles corfforol a meddyliol trwy addysg a dewisiadau iach mewn bywyd.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Ar y cyd â phartneriaid, rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon fel a ganlyn:

- rydym yn darparu gwasanaethau cymorth cartref a chymunedol ac ystod o wasanaethau arbenigol ar gyfer dros 3,000 o oedolion bob dydd, er mwyn iddynt allu byw bywydau mwy annibynnol, gwella eu hansawdd bywyd neu atal eu cyflwr rhag dod yn fwy difrifol;
- rydym wedi sefydlu rhaglenni gwella iechyd wedi'u targedu i annog pobl i roi'r gorau i ysmegu, eu hannog i beidio â chamddefnyddio alcohol, i gollu pwysau ac i ddatblygu arferion iachach o ran bwyta a gwneud ymarfer corff;
- mae cymorth ariannol wedi cael ei ddsbarthu trwy raglen y Gist Gymunedol i glybiau a sefydliadau i ddatblygu mwy o gyfleoedd i bobl gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol;
- rydym wedi ymrwymo i bartneriaeth am 15 mlynedd gyda HALO Leisure Ltd. i redeg ein canolfannau hamdden a'n pyllau nofio, gyda'r nod cyffredinol o gynyddu nifer yr ymweliadau ac annog pobl i fyw'n iach;
- fe wnaethom redeg y fenter 'Ysgolion Egniol', gan gyflawni cyfranogiad uwch mewn gweithgareddau corfforol yn ein hysgolion o fewn a'r tu allan i oriau ysgol arferol;
- fe wnaethom wella'r cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont, Canolfan Chwaraeon Bracla a Chanolfan Hamdden Cwm Garw i annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'n cyfleusterau hamdden a llyfrgell; ac
- fe ddathlon ni ein mabolgampwyr Olympaidd a Pharalympaidd, o'r gorffennol a'r presennol, trwy'r arddangosfa 'Dilyn y Fflam' a rhaglenni sefydledig yn ein gwasanaethau Celfyddydau a Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o athletwyr.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am weld poblogaeth iachach.

Byddwn yn:

- canolbwyntio ar wella deilliannau iechyd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy wella ymhellach y cysylltiadau â lechyd Cyhoeddus Cymru a rhedeg rhaglenni priodol i helpu pobl i fyw bywydau iachach;
- cyflwyno rhwydwaith o froceriaid byw'n iach yn y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf newydd;

- parhau i gynnwys negeseuon bwyta'n iach fel rhan annatod o'r addysg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, megis ysgolion, sefydliadau ieuencid, gwasanaethau hamdden a grwpiau cymunedol;
- sicrhau ymateb cydgysylltiedig sy'n mynd i'r afael â materion blaenoriaeth megis cyfraddau beichiogi ymhlith merched yn eu harddegau, gordewdra ymhlith plant, camddefnyddio alcohol a sylweddau, a lles meddyliol;
- gweithio tuag at ostwng cyfraddau ysmegu a chymeriant alcohol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc;
- datblygu gwasanaethau a chyfleoedd sy'n annog ac yn hybu gweithgarwch corfforol gydol oes, gan weithio mewn partneriaeth gyda HALO/GLL;
- datblygu a gweithredu rhaglenni sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr ardaloedd lleiaf iach yn y fwrdeistref; a
- hyrwyddo gweithgareddau cost-isel a hygyrch megis cerdded a beicio a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau grŵp/cymdeithasol.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- cymryd camau i wneud mwy o ymarfer corff trwy fynychu eich cyfleuster hamdden lleol neu ymuno â chlwb neu grŵp lleol;
- ymuno â'ch llyfrgell leol a defnyddio'r adnoddau a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu;
- ymrwymo i roi'r gorau i ysmegu a bwyta'n iachach; a hefyd
- cofrestru ar gwrs dysgu oedolion yn y gymuned i ddysgu rhywbeth newydd a chwrdd â phobl newydd.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- Pan fydd dangosyddion iechyd ar gyfer dinasyddion yn y fwrdeistref yn gwella, gan gynnwys:
 - pan fydd y ganran o'r boblogaeth sy'n ysmegu'n gostwng;
 - pan fydd y ganran o'r boblogaeth sydd dros eu pwysau neu'n ordew yn gostwng;
 - pan fydd y ganran o'r oedolion sy'n cael pwl o oryfed ar o leiaf un diwrnod bob wythnos yn gostwng;
 - pan fydd cyfraddau beichiogi ymhlith merched yn eu harddegau'n gostwng;

- pan fydd cyfradd y babanod â phwysau geni isel yn gostwng;
- pan fydd y ganran o'r oedolion sy'n cyflawni'r lefelau argymelledig o weithgarwch corfforol yn cynyddu;
- pan fydd y bwlch o ran Disgwyliad Oes Iach rhwng cymunedau mwyaf a lleiaf amddifadus y fwrdeistref yn mynd yn llai;
- pan fydd y ganran o'r plant sy'n aelodau o'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cynyddu; a hefyd
- pan fydd cyfleoedd hyfforddi a nifer y rheiny sy'n cael gwaith yn cynyddu.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2013-14

Rydym am wneud cynnydd da o ran annog mwy o bobl ledled y fwrdeistref i fyw'n iach.

Rydym am weld mwy o gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol ar draws pob grŵp yn y boblogaeth.

Byddwn yn:

- gwella rhaglenni byw'n iach mewn cyfleusterau hamdden, ysgolion a chymunedau i annog pobl i gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol;
- gweithio gyda phartneriaid ym maes iechyd cyhoeddus a phartneriaid eraill i ddatblygu ymhellach y prosiectau a dargedir i helpu pobl i fynd i'r afael â materion iechyd a mabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys:
 - Y Rhaglen Gymunedol Rheoli Pwysau;
 - gostwng cyfraddau yfed niweidiol; a
 - gostwng cyfraddau ysmegu.
- gwella rôl llyfrgelloedd o ran helpu dinasyddion i wella eu lles emosiynol a chorfforol trwy ddarparu mwy o wasanaethau cydgyssylltiedig mewn un lle.

8 BLAENORIAETH CHWECH – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O’N HADNODDAU



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn llwm. Ers 2011-12, mae'r cyllid refeniw y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan lywodraeth genedlaethol wedi gostwng 9.2% mewn termau real. Ar yr un pryd bu gostyngiad mewn incwm o ffioedd, taliadau, buddsoddiadau a gwerthoedd tir is, o ganlyniad i'r economi wan. Disgwylir i'r duedd hon barhau dros y pedair blynedd nesaf.

Mae hwn yn gyfnod heriol. Er mwyn cyflawni ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer gwella o fewn yr adnoddau sydd ar gael, rydym yn amcangyfrif bod angen i ni ddod o hyd i arbedion refeniw parhaus o £24 miliwn dros y cyfnod hwn. Bydd angen i ni felly newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau i wneud i'n hadnoddau fynd ymhellach.

Rydym am leihau i'r eithaf yr effaith y bydd llai o gyllid yn ei chael ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer dinasyddion. Rydym felly'n ymrwymedig i ddod o hyd i hanner y £24 miliwn trwy gydweithio o fewn y Cyngor a chyda'n partneriaid, i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ffisegol, dynol, ariannol a thechnolegol.

Sut ydym wedi gwneud hyd yma?

Mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion refeniw parhaus o £9.3 miliwn dros y tair blynedd ddiwethaf, er enghraifft trwy ostwng costau rheoli a gweinyddu, aildrafod telerau contractau gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth. Bob blwyddyn mae'n mynd yn anos gwneud arbedion effeithlonrwydd newydd, ond byddwn yn parhau i ymagnïo i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio fel ein bod yn cael y gwerth gorau am arian a'r gwerth cyhoeddus gorau o'n holl weithgareddau.

Beth ydym yn dymuno'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Rydym am i bobl yn y fwrdeistref fod yn hyderus bod y Cyngor yn deg, yn uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn effeithlon.

Byddwn yn:

- gweithredu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor;
- gweithredu argymhellion Rhaglen Rheoli Newid Strategol ac yn cyflawni'r arbedion sy'n ofynnol;
- mynd ati ymhellach i liflinio ein prosesau gweinyddol;
- parhau i wella'r gwerth am arian yr ydym yn ei gael o drefniadau contract a chomisiynu;
- optimeiddio ein cyfleoedd ar gyfer creu incwm;
- gwneud gwell defnydd o'n swyddfeydd ac asedau eraill (megis unedau diwydiannol);
- cydweithio gyda sefydliadau partner lle mae manteision i'w cael o safbwynt ansawdd y gwasanaeth neu'r costau;
- rhesymoli ein systemau TGCh i gyflawni arbedion effeithlonrwydd;
- sicrhau bod ein hadnoddau ariannol, dynol, ffisegol a thechnolegol yn ategu ein blaenoriaethau gwella corfforaethol;
- gwella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â dinasyddion;
- gweithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni ein blaenoriaethau cyffredin ar gyfer y fwrdeistref; a hefyd
- ei gwneud yn haws i ddinasyddion gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor.

Sut allwch chi chwarae rhan?

Gallwch chi helpu trwy wneud y canlynol:

- dweud wrthym a ydych yn teimlo'n hyderus bod y Cyngor yn deg, yn uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn effeithlon. Rhannwch gyda ni'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn iawn yn eich tyb chi, er mwyn i ni allu lledaenu arfer da. Os oes gennych bryderon, dywedwch wrthym beth ydynt, er mwyn i ni allu ystyried sut y gallwn wneud yn well;
- dweud wrthym am eich profiadau o gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, er mwyn i ni wybod a ydym yn llwyddo i'w gwneud yn haws i'n dinasyddion ac er mwyn i ni allu gweithredu os nad ydym; a
- dweud wrthym os ydych chi wedi profi arferion yr ydych chi'n eu hystyried yn wastraffus, er mwyn i ni allu archwilio'r hyn yr ydym yn ei wneud a phenderfynu a ellir gwneud gwelliannau.

Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y canlynol yn wir:

- pan fydd arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni;
- pan fyddwn yn derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth ddinasyddion ynghylch cyfathrebu, ymgysylltu, mynediad at wasanaethau a gwerth am arian;
- pan fydd ein gwariant ar gontractau cyfredol a gweithgarwch comisiynu yn is;
- pan fyddwn cael y defnydd a'r gwerth mwyaf posib o'r swyddfeydd sydd ar gael i ni;
- pan fydd ein gwariant cyfredol ar systemau TGCh yn is; a hefyd
- pan fydd ein strategaethau adnoddau'n amlwg yn ategu'r broses o gyflawni'r blaenoriaethau gwella corfforaethol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2013-14

Rydym am wneud arbedion o £3.7 miliwn yn 2013-14 a pharatoi ar gyfer arbedion pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol gan fynd ati ar yr un pryd i ysgogi gwelliannau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth.

Byddwn yn:

- cyflawni'r cynigion ar gyfer arbedion a nodir yng nghyllideb 2013-14;
- sefydlu Rhaglen Rheoli Newid Strategol;
- adolygu ffioedd, taliadau ac asedau dros ben ac yn gwneud argymhellion i optimeiddio incwm;
- cyflawni'r camau gweithredu ar gyfer y Cyngor a nodir yn y Cynllun Partneriaeth Integredig Sengl 'Sir Pen-y-bont Ynghyd';
- gweithredu i ostwng lefelau absenoldeb oherwydd salwch ymhellach; ehangu'r cyfryngau cymdeithasol a datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion;
- gostwng costau ynni ac allyriadau CO2 o'n hystâd;
- gweithredu strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid;
- sefydlu cydwasanaeth gwarchod y cyhoedd gyda chynghorau eraill; ac
- adolygu arferion caffael a datblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus.

9 ADRODD AR GYNNYDD

Byddwn yn mesur ein llwyddiant gan ddefnyddio'r dangosyddion yr ydym wedi'u hadnabod yn Atodiad A ar ddiwedd y cynllun hwn ac yn pennu targedau pryd bynnag y bo'n briodol ac yn bosib.

Trwy gydol y flwyddyn byddwn yn monitro cynnydd gyda'r camau gweithredu yr ydym wedi dweud y byddwn yn eu cymryd mewn perthynas â'r dangosyddion hyn, ac yn eich hysbysu ynghylch y cynnydd allweddol gan ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu. Ar ddiwedd pob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddweud wrthyf sut yr ydym wedi perfformio mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r ymrwymadau yn y Cynllun Corfforaethol hwn ac i ofyn am eich adborth chi ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud.

10 EICH SYLWADAU CHI A'R ADOLYGIAD BLYNYDDOL

Rydym yn parhau i groesawu eich sylwadau chi ar y cynllun hwn. I sicrhau bod ein blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r mesurau yr ydym yn eu cymryd yn adlewyrchu dyheadau lleol, eu bod yn fforddiadwy ac yn ategu blaenoriaethau cenedlaethol, byddwn yn adolygu ac yn diweddarau'r cynllun hwn yn flynyddol. Mae hyn hefyd yn ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd eich adborth yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad blynyddol. Gallwch e-bostio eich adborth i improvement@bridgend.gov.uk, neu ei fwydo yn ôl trwy'r arolwg ar-lein yn www.bridgend.gov.uk, neu ei bostio at Y Tîm Gwella Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cwrt y Cigfrain, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AP.

GEIRFA

Anghydraddoldebau iechyd	Mae hyn yn cyfeirio at wahaniaethau rhwng iechyd gwahanol grwpiau o bobl.
CF	Cysylltu Teuluoedd – gwasanaeth amlasiantaeth sy'n amcanu at weithio'n fwy effeithiol gyda'r teuluoedd hynny sydd â'r anawsterau mwyaf hirdymor a chymhleth ac sy'n tynnu ar ystod eang o wasanaethau.
Credyd Cynhwysol	Budd-dal lles newydd yn y Deyrnas Unedig. Bydd yn cael ei lansio yn 2013 a bydd yn disodli nifer o lwfansau a chredydau treth presennol gan gynnwys lwfans ceisio gwaith a chredydau treth plant.
Cyfnod Allweddol 1 (CA1)	Y blynyddoedd ysgol a adwaenir fel Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
Cyfnod Allweddol 2 (CA2)	Y blynyddoedd ysgol a adwaenir fel Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6.
Cyfnod Allweddol 3 (CA3)	Y blynyddoedd ysgol a adwaenir fel Blwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9.
Cyfnod Allweddol 4 (CA4)	Y ddwy flynedd o addysg ysgol, sy'n cynnwys TGAU ac arholiadau eraill, a adwaenir fel Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
Cymunedau yn Gyntaf	Rhaglen yw hon sy'n canolbwyntio ar gymunedau ac sy'n amcanu at leihau tloedi parhaus trwy roi cymorth i'r bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru.
Dangosydd Pynciau Craidd	Y 'Dangosydd Pynciau Craidd' yw'r ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth.
Dechrau'n Deg	Dechrau'n Deg yw'r rhaglen Blynyddoedd Cynnar a dargedir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru.
Diogelu	Mae hyn yn cyfeirio at y dull o amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.
Diwygiad Lles Budd-dal Tai	Mae Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU 2012 yn cyflwyno newidiadau sylweddol i'r gyfundrefn lles. Mae'n diddymu Budd-dal Treth Gyngor (CTB) a Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng. Mae'n cyflwyno dau daliad budd-dal lles newydd – Credyd Cynhwysol (gweler yr esboniad ar wahân) a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol, a fydd yn disodli Lwfans Byw i'r Anabl.
Estyn	Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

GDHI	Incwm Aelwyd Crynswth i'w Wario.
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	Gall grantiau o'r fath helpu tuag at gostau addasu cartref fel bod y preswylydd yn gallu parhau i fyw yno.
GVA	Gwerth Ychwanegol Crynswth.
Halo/HALO a GLL	Mentrau cymdeithasol sydd hefyd yn gweithredu nifer o ganolfannau hamdden ar ran cynghorau.
IFSS	Gwasanaeth Cymorth Dwys i Deuluoedd.
Incwm canolrifol	Ystyr incwm canolrifol yw'r lefel ganol o incwm mewn rhestr sy'n mynd o'r incwm isaf i'r incwm uchaf.
Just@sk+	Gwasanaeth sy'n rhoi cyngor, cymorth ymarferol, gwybodaeth a chefnogaeth bersonol i bobl ifanc
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009	Ystyr Mesur yw deddf yng Nghymru sy'n arwain y gwaith o wella gwasanaethau a chynllunio strategol gan awdurdodau lleol.
NEET	Rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
NVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol.
(BI) PABM	(Bwrdd Iechyd) Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
(Gwariant) Refeniw	Mae hyn yn cynnwys yr holl wariant ar gostau rhedeg gwasanaethau o ddydd i ddydd, megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau, offer, cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol.
Strategaeth	Cynllun sydd wedi'i fwriadu i greu sefyllfa/deiliant a ddymunir yn y dyfodol.
Teleofal	Mae Teleofal yn cysylltu synwryddion trwy uned larwm cymunedol yn y cartref â chanolfan fonitro ganolog.
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd.
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.
Trosolwg a Chraffu	Pwrpas trefniadau Trosolwg a Craffu'r Cyngor yw sicrhau y ceir archwiliad priodol o'r gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar fywydau pobl yn y fwrdeistref.

Trydydd Sector

Yr ystod o sefydliadau sy'n cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol.

Y Gronfa Fuddsoddi Leol

Cyllid o £1.2M gan yr Undeb Ewropeaidd, a ddefnyddir i roi cymorth ariannol i fusnesau yn y fwrdeistref.

ATODIAD A: DANGOSYDDION LLWYDDIANT

(Sylwer: Lle nodir ‘cynnydd’ neu ‘gostyngiad’ ar gyfer targedau, ystadegau cenedlaethol neu allanol yw’r rhain. Rydym yn defnyddio’r ystadegau hyn i fesur y deilliannau hirdymor yr ydym yn dymuno eu cyflawni i’n dinasyddion a bydd ein gwasanaethau’n cyfrannu atynt.)

BLAENORIAETH UN – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I DDATBLYGU’R ECONOMI LEOL			
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Targed yn 2012-13	Targed yn 2013-14
Y ganran o’r boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth	69.6% (Arolwg o’r Llafurlu 2012, ONS)	cynnydd	cynnydd
Y ganran o’r bobl ifanc 16-24 oed sydd mewn cyflogaeth	51.6% (Arolwg o’r Llafurlu 2012, ONS)	cynnydd	cynnydd
Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen	£15,440, (2010, ONS)	cynnydd	cynnydd
Incwm Aelwyd Crynswth i’w Wario (GDHI) y pen	£13,769 (2010, ONS)	cynnydd	cynnydd
Ymadawyr Blwyddyn 11 ar gyfer Ysgolion yn yr Awdurdod y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	4.4% (2001, Gyrfa Cymru)	4%	4%
Y ganran o’r holl blant dan 16 sy’n byw mewn aelwydydd o oedran gweithio heb unrhyw un mewn cyflogaeth	20.4% (2011, Arolwg Blyneddol o’r Boblogaeth)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o’r plant sy’n byw mewn aelwydydd sydd islaw 60% o’r incwm canolrifol	23.1% (2009, ONS)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o’r: prif ffyrdd (A) ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	(A) 7.1% (B) 9.0% (C) 13.0%	(A) 6.8% (B) 7.8% (C) 14.5%	(A) 6.96% (B) 9.88% (C) 12.81%
Y ganran o gyfanswm hyd yr hawliau tramwy sy’n hawdd i’w defnyddio i aelodau o’r cyhoedd	88%	89%	91%
Nifer y bobl sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith	4.4% (Ion 2013)	gostyngiad	gostyngiad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cynllun Corfforaethol 2013-2017

Nifer yr ymwelwyr â chanolau trefi (nifer yr ymwelwyr blynyddol ym Mhen-y-bont a Phorthcawl)	Pen-y-bont 5,197,383 Porthcawl 2,650,733 (2011, arolwg lleol)	Pen-y-bont 5,030,292 Porthcawl 2,700,000 (2012, arolwg lleol)	cynnydd
Cyfanswm y gwariant blynyddol gan dwristiaid	£268.8m (2011, CBS Pen-y-bont ar Ogwr)	£282.8m (2011, CBS Pen-y-bont ar Ogwr)	cynnydd
Nifer y safleoedd gwag yng nghanolau trefi.	Pen-y-bont 67 Maesteg 11 Porthcawl 24 (2011, Archwiliad Iechyd Canolau Trefi)	Pen-y-bont 66 Maesteg 17 Porthcawl 12 (Archwiliad Iechyd Canolau Trefi 2012)	gostyngiad
Nifer y busnesau gweithredol	3600	cynnydd	cynnydd
BLAENORIAETH DAU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I GODI UCHELGEISIAU A CHYNYDDU CYFLAWNIAD ADDYSGOL			
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Targed yn 2012-13	Targed yn 2013-14
Y ganran o'r disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU â gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg	44.6%*	49%*	60%*
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	93.3%*	94.6%*	94.6%*
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	91.3%*	92.4%*	92%*
Y ganran o'r holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheiny yng ngofal yr awdurdod lleol) yn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	0.58%*	0.7%*	0.5%*
Y ganran o'r holl ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol yn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	5.88%*	10%*	10%*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cynllun Corfforaethol 2013-2017

Y ganran o'r disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, yn ôl yr Asesiad Athro.	77.1%*	80%*	83%*
Maint y bwch mewn cyflawniadau addysgol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rheiny heb hawl iddynt	28%*	26%*	24%*
Ymadawyr Blwyddyn 11 ar gyfer Ysgolion yn yr Awdurdod y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	4.4% Gyrfa Cymru 2011	4%	4%
Y ganran o ddisgyblion sy'n cwblhau Cyfnod Allweddol 4 ac yn aros mewn addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith.	91.4% (Arolwg Cyrchfannau Disgyblion Gyrfa Cymru)	cynnydd	96%
Y ganran o'r boblogaeth o oedran gweithio â NVQ Lefel 3 neu gymhwyster cyfwerth	50.3% (2010-11, ffigwr NOMIS)	cynnydd	cynnydd

* Mae a wnelo'r ffigyrau hyn â'r flwyddyn ysgol flaenorol

BLAENORIAETH TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU'N GYNNAR

Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Targed yn 2012-13	Targed yn 2013-14
Nifer y teuluoedd sy'n elwa o gymorth dwys i deuluoedd a ddarperir gan Cysylltu Teuluoedd (CF) a Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd (IFSS) sy'n mabwysiadu dull 'tîm o amgylch y teulu'.	71	50	140
Plant sy'n derbyn gofal fel canran o'r plant 0-17 oed	1.1% (31/03/12)	gostyngiad	1.1%
Y ganran o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed	100%	95%	100%
Y ganran o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn llety difrys addas a hwythau'n 19 oed	94.12%	95%	100%
Y ganran o'r plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	7.83%	<10%	<10%

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cynllun Corfforaethol 2013-2017

Nifer y plant a atgyfeiriwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda phryderon eu bod yn cael eu hesgeuluso neu'u cam-drin	391	400	300
Y ganran o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed	29.41%	45%	85%
Nifer y plant sy'n elwa o'r rhaglen Dechrau'n Deg	752	794 (isafswm wedi'i gapio gan Lywodraeth Cymru)	1190
Nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r Gyfundrefn Cyfiawnder Ieuencid am y tro cyntaf	46	gostyngiad	40
BLAENORIAETH PEDWAR – GWEITHIO GYDA'N GILYDD I HELPŪ POBL AGORED I NIWED I BARHAU I FOD YN ANNIBYNNOL			
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Targed yn 2012-13	Targed yn 2013-14
Y gyfradd o ran: a) y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) a oedd yn cael cymorth yn y gymuned am bob 1,000 o bobl 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	85.88	>85	>85
Y gyfradd o ran: b) y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) yr oedd yr awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal am bob 1,000 o bobl 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	20.45	<20.5	<20
Cyfradd yr oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau a oedd yn ymwneud â gofal cymdeithasol am bob 1,000 o bobl 75 oed neu drosodd	2.78	<3	<2.75
Y ganran o'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi cael ei reoli	86.6%	86%	87%
Y ganran o'r cleientiaid Teleofal a ddywedodd fod y gwasanaeth yn ei gwneud yn haws iddynt ymdopi yn eu cartref eu hunain	93%	95%	95%
Nifer y rhai sy'n derbyn gwasanaeth y Tîm Adnoddau Cymunedol (gwasanaethau canolradd) sydd wedi cael dewis yn lle lleoliad yn yr ysbty	750	800	800

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cynllun Corfforaethol 2013-2017

Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	251 diwrnod	279 diwrnod	253 diwrnod
Y ganran o'r oedolion a ddywedodd eu bod yn cael triniaeth am unrhyw salwch meddwl	14% (Arolwg Iechyd Cymru 2010-11)	gostyngiad	gostyngiad
Cost cyfartalog am bob cleient ar gyfer gofal cartref	£10,586 (Arolwg 'measuring up' 2011-12)	gostyngiad	gostyngiad
Cost uned lleoliadau gofal preswyl ar gyfer oedolion 65+ oed	£24,500 (Arolwg 'measuring up' 2011-12)	gostyngiad	gostyngiad
Nifer y gofalmwr sy'n dweud eu bod yn cael cymorth a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu	mesur newydd	mesur newydd	Bydd arolwg yn cael ei ddatblygu a tharged yn cael ei sefydlu yn 2013-14
BLAENORIAETH PUMP – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I FYND I’R AFAEL Â MATERION IECHYD AC ANNOG POBL I FABWYSIADU FFYRDD IACH O FYW			
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Targed yn 2012-13	Targed yn 2013-14
Y ganran o'r boblogaeth sy'n ysmegu	23 (Arolwg Iechyd Cymru 2010-11)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o'r oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew	59 (Arolwg Iechyd Cymru 2010-11)	gostyngiad	gostyngiad
Y ganran o'r oedolion sy'n dweud iddynt fod yn egniol yn gorfforol ar bum niwrnod neu fwy yn yr wythnos ddiwethaf	30 (Arolwg Iechyd Cymru 2010-11)	cynnydd	cynnydd
Y ganran o'r oedolion a ddywedodd iddynt gael pwl o orfyed ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf	30 (Arolwg Iechyd Cymru 2010-11)	gostyngiad	gostyngiad
Y gyfradd beichiogi ymhlith merched dan 18	42.5 (Stats Cymru 2010)	gostyngiad	gostyngiad
Amrywiad (mewn blynyddoedd) mewn disgwyliad oes iach ar draws ein wardiau a) Dynion b) Menywod	Dynion: 19.4 Menywod: 20.8	gostyngiad	gostyngiad
Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, am bob 1,000 o bobl,	4243	4600	4600

Y ganran o'r plant dan 5 sy'n aelodau o'r gwasanaeth llyfrgelloedd	newydd	10.32% (Y ganran wirioneddol ar 04.03.13)	11%
Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o bobl lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol	9519.54	9200	9200
Y ganran o'r holl enedigaethau lle cofrestrwyd pwysau geni isel	7.4 (Stats Cymru 2010)	gostyngiad	gostyngiad
BLAENORIAETH CHWECH – GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O’N HADNODDAU			
Dangosydd	Gwirioneddol yn 2011-12	Targed yn 2012-13	Targed yn 2013-14
Gwerth y gostyngiadau arfaethedig mewn cyllidebau a gyflawnwyd	£7,386,000	£4,796,000	£3,706,000
Y ganran o'r dinasyddion a ddywedodd mewn arolygon fod y Cyngor yn dda neu'n dda iawn am ddweud wrthynt am y gwasanaethau y mae'n eu darparu a newyddion sy'n gysylltiedig â'r Cyngor.	mesur newydd	49% (canlyniadau arolwg Ion 2013)	cynnydd
Y ganran o'r dinasyddion a ddywedodd mewn arolygon eu bod yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol	39.1%	cynnydd (arolwg yn cael ei gynnal ym mis Mai 2013)	cynnydd
Y ganran o'r dinasyddion a ddywedodd mewn arolygon fod eu gofynion mynediad unigol yn cael eu diwallu wrth gysylltu â'r Cyngor	41.8%	cynnydd (arolwg yn cael ei gynnal ym mis Mai 2013)	cynnydd
Cyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd trwy Raglen Caffael Cydweithredol Gwerth Cymru	Ddim yn berthnasol	£58,013.61 (Ffigwr gwirioneddol Rhag 12)	cynnydd
Metrau sgwâr o swyddfeydd defnyddiadwy am bob cyflogai	10.89m ²	gostyngiad yn y targedau ar gyfer prosiectau a gwblhawyd yn unol â'r Strategaeth Swyddfeydd	gostyngiad i dargedau ar gyfer prosiectau a gwblhawyd yn unol â'r Strategaeth Swyddfeydd
Gwerth y cynigion gostwng cyllidebau ar gyfer systemau TGCh a gyflawnwyd	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	£50,000 2014-15 £200,000 2016-17

